# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 11 i 18 Mai 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

2 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

3 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

5 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

9 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Adeilad Newydd y Cynulliad

**Ron Davies:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn cyhoeddi'r holl adroddiadau swyddogol y mae wedi'u derbyn yn ystod ei adolygiad o broject adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ5168)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Fel yr eglurwyd yn ystod y ddadl ar 4 Ebrill, bydd yr holl wybodaeth a geir o'r adolygiadau a gomisiynwyd i brosiect adeilad newydd y Cynulliad yn cael ei rhyddhau i Aelodau'r Cynulliad. Bydd yr wybodaeth honno yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiadau a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Cyllid i amcangyfrifon cost a systemau rheoli prosiect y cynllun cyfredol ynghyd â sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r gwerthusiadau economaidd gwreiddiol a oleuodd y penderfyniad i leoli cartref y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

Caiff yr wybodaeth honno ei chyhoeddi i oleuo'r ddadl yngl^yn ag adeilad newydd y Cynulliad ac fe'i cyhoeddir ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

### Grantiau Menter i Gymru

**Nick Bourne:** A oes unrhyw fesurau ar waith i gyflwyno grantiau menter i Gymru, fel y rhai sydd eisoes ar waith yn Lloegr? (WAQ5169)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a chyrff eraill, yr wyf yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer rhoi cymorth, oddi mewn i reolau cymorth gwladol yr Undeb Ewropeaidd, i fusnesau yng Nghymru. Gwneir cyhoeddiad cyn gynted â phosibl.

### Grantiau Datblygu i Bowys

**Nick Bourne:** A oes unrhyw gynigion yn cael eu trafod i sicrhau mwy o grantiau datblygu i Bowys? (WAQ5170)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae fy swyddogion yn trafod cynigion gyda'r awdurdod lleol ac eraill.

### Lefel Buddsoddi a Chreu Swyddi (Bae Caerdydd)

**Lorraine Barrett:** A all Rhodri Morgan roi dadansoddiad o lefel y buddsoddiad a'r creu swyddi a ddenwyd i ardal Bae Caerdydd dros y tair blynedd ddiwethaf a lefel y buddsoddiad a'r creu swyddi a ddisgwylir dros y tair blynedd nesaf? (WAQ5208)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi rhoi'r dadansoddiad isod o'r buddsoddiad a'r swyddi a ddenwyd i'w hardal:

| | **1997-98** | **1998-99** | **1999-2000** | **Blynyddoedd Diweddarach** |
|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiad sector preifat (£ miliwn)** | 96.9 | 71.4 | 89.7 | 808.0 |
| **Cyfanswm swyddi mewn datblygiadau newydd** | 3,100 | 2,773 | 1,874 | * |
| Parhaol | 1,776 | 1,654 | 568 | 18,001 |
| Adeiladu | 1,324 | 1,119 | 1306 | * |

* Gwybodaeth ddim ar gael

*D.S.Daw'r ffigurau am y ddwy flynedd gyntaf o gynlluniau corfforaethol y gorfforaeth. Y rheini ar gyfer 1999-2000 ac ymlaen yw amcangyfrifon gorau'r gorfforaeth sydd ar gael. Nid oes toriad ar gael ar gyfer blynyddoedd pellach am fuddsoddi a chreu swyddi yn ardal benodol flaenorol y gorfforaeth.*

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Achosion wedi'u Cadarnhau o BSE

**Glyn Davies:** Faint o achosion wedi'u cadarnhau o BSE sydd wedi'u cofnodi yn ystod 2000 a phob un o'r pum mlynedd lawn cyn hynny? (WAQ5171)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o achosion o BSE a gadarnhawyd ym Mhrydain Fawr a Chymru hyd at 28 Ebrill yn y flwyddyn 2000 ac am y pum mlynedd galendr lawn ddiwethaf.

| **Cymru** | ***Nifer yr achosion o BSE a gadarnhawyd mewn anifeiliaid a roddwyd o dan gyfyngiad yn y flwyddyn a ddangosir*** | ***Achosion eraill o BSE a gadarnhawyd yn y flwyddyn a ddangosir (a)*** |
|---|---|---|
| Blwyddyn : 1995 | 1322 | 0 |
| 1996 | 636 | 0 |
| 1997 | 323 | 0 |
| 1998 | 230 | 0 |
| 1999 | 152 | 4 |
| hyd at 28 Ebrill 2000 | 30 | 0 |
| **Prydain Fawr** | ***Nifer yr achosion o BSE a gadarnhawyd mewn anifeiliaid a roddwyd o dan gyfyngiad yn y flwyddyn a ddangosir*** | ***Achosion eraill o BSE a gadarnhawyd yn y flwyddyn a ddangosir (a)*** |
| Blwyddyn : 1995 | 14301 | 1 |
| 1996 | 8031 | 3 |
| 1997 | 4309 | 3 |
| 1998 | 3178 | 1 |
| 1999 | 2254 | 20 |
| hyd at 28 Ebrill 2000 | 328 | 0 |

*(a) Anifeiliaid y cadarnhawyd eu bod yn dioddef o BSE ond na roddwyd mohonynt o dan gyfyngiad cyn eu lladd. Bydd hyn yn cynnwys anifeiliaid a gyflwynwyd am bost mortem gan y perchennog am ddiagnosis gwahaniaethol ac achosion wedi'u cadarnhau a ganfuwyd mewn arolygon post mortem.*

### Ffermydd Tir Gofal (Mwy o Fynediad i'r Cyhoedd)

**Glyn Davies:** Faint o'r ffermydd unigol a gymeradwywyd dan gynllun Tir Gofal sydd yn rhoi mwy o fynediad i'r cyhoedd? (WAQ5172)

**Christine Gwyther:** Mae rhyw 220 o'r 600 cyntaf o gytundebau Tir Gofal yn cynnwys un neu fwy o fathau o fynediad goddefol. Mae llawer o'r cytundebau hefyd yn cynnwys darnau o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'n amod o dan y cynllun Tir Gofal fod pob hawl tramwy gyhoeddus yn cael ei chynnal heb unrhyw rwystrau arni. Mae'r profiad o dan Tir Cymen yn awgrymu bod yn rhaid clirio hyd at 30 y cant o hawliau tramwy cyhoeddus ar dir fferm fel rhan o ddod i mewn i gynllun amaeth-amgylcheddol.

## Cynllun Tir Gofal

**Glyn Davies:** Faint o unedau amaethyddol a allai wneud cais i fod yn rhan o'r cynllun Tir Gofal sydd yn bodoli yng Nghymru? (WAQ5173)

**Christine Gwyther:** Mae oddeutu 28,000 o ffermydd yng Nghymru ac o'r rheini mae 3,000 eisoes un ai mewn ardaloedd amgylchedd arbennig neu yn Nhir Cymen, ac mae 1,750 arall yn llai na'r maint cymhwyso o 3 hectar. Mae hyn yn gadael cyfanswm o 23,250 o ffermydd a allai o bosibl fod yn gymwys i fod yn rhan o'r cynllun Tir Gofal.

## Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gwrthod Prynu Cig Oen Prydeinig

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cael â chydweithwyr yn San Steffan mewn perthynas â'r ffaith bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwrthod prynu mwy o gig oen o Brydain i fwydo'r fyddin? (WAQ5174)

**Christine Gwyther:** Ynghyd â chydweithwyr eraill mewn Llywodraeth, yr wyf wedi cyflwyno sylwadau i'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau ei bod yn ymwybodol o ansawdd cig oen Cymru a bod cyflenwad at anghenion lluoedd Prydain. Mae Hybu Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyfyngedig, a gefnogir gan y Cynulliad o dan y strategaeth bwyd-amaeth, hefyd wedi gweithio'n galed i argyhoeddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gymryd mwy o gig oen Cymreig. Serch hynny, mater i'r Weinyddiaeth yng ngoleuni ei hanghenion gweithredol yw ei phenderfyniadau prynu.

Fodd bynnag, yr wyf yn falch o ddweud bod y Weinyddiaeth Amddiffyn ar hyn o bryd yn prynu cig eidion 100 y cant o Brydain ar gyfer ei phersonél sydd yn seiliedig yn y DU a'i bod wedi cynnig ymrwymo i bryniant sylweddol o gig oen ymlaen llaw. Mae'r anawsterau a wynebir gan y diwydiant o ran sicrhau contract i gyflenwi'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u seilio ar bris ac a oes cyflenwad o'r cynnyrch ar gael wedi'i rewi. Nid yw'n hawdd pennu prisiau ymlaen llaw ar lefel ddigon isel i fodloni'r Weinyddiaeth oherwydd byddai'r diwydiant yn cael anhawster i gadw at yr ymrwymiad dros gyfnod estynedig o amser am bris is nag y gellid ei gael yn y farchnad adwerthu ffres. Mae'r Weinyddiaeth yn gofyn am gig oen sydd wedi ei chwyth rewi.

Mae cynllun gweithredu'r sector cig oen a chig eidion, a lansiwyd ym Mawrth 1999, yn nodi bod angen i'r diwydiant gystadlu gyda chig oen wedi'i rewi o Seland Newydd. I'r perwyl hwn mae Hybu Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyfyngedig yn datblygu'r sector prosesu o dan ymbarél strategaeth bwyd-amaeth y Cynulliad, dan arweiniad y bartneriaeth bwyd-amaeth. Bydd Hybu Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyfyngedig yn ymgymryd ag astudiaeth i ganfod a fyddai'r cyflenwad gormodol o gig oen Cymreig yn ei dymor yn ei gwneud hi'n werth chweil ei rewi er mwyn cystadlu â'r cynnyrch o Seland Newydd sydd wedi'i rewi.

Ar hyn o bryd mae tri gwaith rhewi yng Nghymru. Mae'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn barod i gefnogi cynigion datblygu hyfyw drwy ddarparu cymorth grant o dan gynlluniau fel y cynllun datblygu marchnata a bydd yn cynnig grantiau pellach o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd hyn yn cynnwys grant prosesu a marchnata newydd, a fydd ar gael yn ddiweddarach eleni. Byddai swyddogion y Cynulliad yn falch o drafod a rhoi cyngor i'r diwydiant ynglŷn ag unrhyw gynigion. Fodd bynnag, penderfyniad masnachol fyddai pa un i fwrw ymlaen ai peidio. Mater i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yw trwyddedu gweithfeydd newydd ac ni all roi cymhellion i broseswyr i sefydlu mwy o weithfeydd rhewi.

## Cau Lladd-dŷ Mead Webber

**Nick Bourne:** A yw Christine Gwyther wedi derbyn unrhyw sylwadau gan drigolion canolbarth Cymru mewn perthynas â chau lladd-dy Mead Webber? (WAQ5175)

**Christine Gwyther:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau mewn perthynas â chau lladd-dy Mead

Webber yn Eardisley, Swydd Henffordd. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus ynglŷn â phenderfyniad y gweithredwr i gau'r gwaith ac am effaith ei gau ar gynhyrchwyr da byw yng Nghymru. Yr wyf wedi ysgrifennu at Nick Brown ynglŷn â'r mater a gofynnwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, fel y corff sydd yn gyfrifol am y Gwasanaeth Glendid Cig, roi adroddiad ar y digwyddiadau a arweiniodd at ei gau.

### Goroesiad Lladd-dai Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff Christine Gwyther wneud datganiad ynglŷn ag unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'i chydweithwyr yn San Steffan mewn perthynas â datblygu polisi i sicrhau bod lladd-dai Cymru yn goroesi? (WAQ5176)

**Christine Gwyther:** Erbyn hyn, yr Asiantaeth Safonau Bwyd sydd yn gyfrifol am drwyddedu ac am agweddau rheoleiddiol eraill lladd-dai, a Jane Hutt sydd yn goruchwylio'r Asiantaeth. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Gweinidogion Amaethyddiaeth eraill cyn hynny yngl^yn â'r angen i ysgafnhau'r baich ar ladd-dai bach i ganolig eu maint, sydd â rhan bwysig i'w chwarae o ran gwireddu strategaeth bwyd-amaeth Cymru ac sydd yn helpu i gynnal hyfywedd economaidd yr economi gwledig ac amaethyddol. Byddaf yn parhau i bwyso am driniaeth deg i'r sector bach i ganolig sydd o dan gymaint o bwysau ac, yn wir, i holl ladd-dai Cymru.

Yn dilyn adroddiad Grŵp Pooley i'r beichiau ar y diwydiant cig, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi sefydlu tasglu i ystyried ffyrdd amgen o leihau i'r eithaf y costau a wynebir gan weithfeydd sydd yn prosesu swmp isel o gynnyrch. Mae'r tasglu, y cynrychiolir buddiannau Cymru arno gan Bob Kennard, i ddarparu ei adroddiad erbyn 31 Mai.

### Cynllun Amaeth-amgylcheddol Tir Gofal (Staff)

**Glyn Davies:** Faint o staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i gyflwyno cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal? (WAQ5207)

**Christine Gwyther:** Cyflogir yr hyn sydd yn cyfateb i tua 85 o staff amser llawn ar Tir Gofal. Swyddogion prosiect sydd yn gwneud gwaith wyneb-yn-wyneb gyda ffermwyr neu gartograffwyr sydd yn ymwneud â mapio'r cytundebau yn ddigidol yw mwyafrif y rhain.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

### Diogelwch Cyfrifiadurol

**William Graham:** Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi'u cymryd i sicrhau nad yw clonau loveletter.txt yn effeithio ar system gyfrifiaduron y Cynulliad? (WAQ5194)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart gadarnhau y bydd cynllun gweithredu mwy effeithiol yn cael ei ddyfeisio i ddelio â digwyddiad arall o'r maint hwn? (WAQ5195)

**William Graham:** Pa fesurau y bwriedir eu defnyddio i sicrhau mwy o ddiogelwch cyfrifiadurol i'r Cynulliad? (WAQ5196)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart egluro pam na chafwyd mwy o frys wrth adfer gwasanaethau e-bost a rhyngrwyd allanol? (WAQ5197)

**William Graham:** A oedd Safon Brydeinig 7799 wedi'i chynnal yn barhaus yn y Cynulliad cyn cyfnod peryglus loveletter.txt? (WAQ5198)

**William Graham:** A oedd Safon Brydeinig 7799 wedi'i chynnal yn barhaus yn y Cynulliad yn ystod cyfnod peryglus loveletter.txt? (WAQ5199)

**William Graham:** Pa newidiadau a wneir i systemau diogelwch cyfrifiadurol y Cynulliad o ganlyniad i loveletter.txt? (WAQ5200)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart ddweud wrthym faint o ddigwyddiadau diogelwch cyfrifiadurol a gafwyd yn y Cynulliad o ganlyniad i loveletter.txt? (WAQ5201)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart egluro pam na chywirwyd system y Cynulliad yn swyddogol yn erbyn loveletter.txt hyd ddydd Llun 8 Mai? (WAQ5202)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart ddweud wrthym pa gyfran o ffeiliau'r Cynulliad sydd wedi'u dinistrio neu eu difrodi gan loveletter.txt? (WAQ5203)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart wneud sylwadau ar effeithlonrwydd y mesurau a ddefnyddiwyd yn y Cynulliad i ddelio â loveletter.txt? (WAQ5204)

**William Graham:** A wnaiff Edwina Hart roi adroddiad llawn ar effeithiau firws loveletter.txt ar system gyfrifiadurol y Cynulliad? (WAQ5205)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Yn sgîl hysbysiad am fodolaeth firws peryglus iawn ar y rhyngrwyd ynysodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei rwydwaith oddi wrth y rhyngrwyd a'i gyswllt â rhwydwaith Gwasanaethau Busnes Siemens ar unwaith. Cafodd yr wybodaeth hon ei throsglwyddo ar draws y rhwydwaith mewnol ynghyd â hysbysiadau diweddaru rheolaidd a negeseuon ysgrifenedig ar fyrddau du yn y cynteddau. Bu'r cwmni cyflenwi meddalwedd yn gweithio ar ddarnau ar gyfer y meddalwedd gwrthfirws ar y dydd Iau ac fe'i derbyniwyd ddydd Gwener. Ddydd Sadwrn aethpwyd drwy'r drefn safonol o brofi'r meddalwedd ar ôl ei ddiweddaru cyn ei lwytho ar y system a chafodd pob gweinyddwr ei ysgubo. Cwblhawyd y broses hon ddydd Sadwrn. Yr oedd y system i lawr ar y dydd Sul oherwydd gwaith cynnal a chadw ar y system drydanol a oedd wedi'i gynllunio ac yn gweithio'n ôl eto gyda mynediad allanol llawn fore dydd Llun.

Nid yw'r Cynulliad yn cydymffurfio â Safon Brydeinig 7799 ar hyn o bryd, ond mae'n gweithio i ddarparu cynlluniau er mwyn ennill achrediad hyd at y safon hon fel a bennwyd yng nghyfarwyddeb ddiweddar y Llywodraeth. Mae'r Cynulliad bob amser yn ceisio gwella diogelwch y rhwydwaith a bydd yn cyflwyno meddalwedd newydd dros yr wythnosau nesaf a ddefnyddir i flocio pob ymosodiad o'r fath ar y rhwydwaith mewnol cyn gynted ag yr hysbysir ni amdano. Bydd hyn yn rhoi parhad yn y gwasanaeth post allanol/rhyngrwyd. Fel rhan o sefydlu system NT4 ar draws y Cynulliad, rhybuddir pawb o'r staff bod angen gofal ychwanegol wrth ddelio â phost o ffynonellau allanol ac wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Cafwyd gwybod am chwe digwyddiad lle derbyniwyd y firws 'I Love You' a hysbyswyd Diogelwch TG am bob un o'r rhain a chawsant eu dileu gan y defnyddwyr heb eu hagor. Drwy'r penderfyniad i ynysu'r rhwydwaith ar unwaith ynghyd â chael pawb a dderbyniodd bost amheus i ddilyn cyfarwyddiadau safonol o fewn y polisi diogelwch TG, sicrhawyd na chafodd rhwydwaith y Cynulliad ei beryglu. Ni chollwyd unrhyw ddata ac nid effeithiwyd ar unrhyw systemau. Yr oedd y gweithdrefnau a ddilynwyd yn effeithiol ac yn unol â'r camau a gymerwyd gan sefydliadau eraill ym maes llywodraeth a masnach.

**Archwiliad Amgylcheddol ar Osod System Awyru Newydd**

**Glyn Davies:** A gafwyd archwiliad amgylcheddol ar osod system awyru newydd yn Nhŷ Crucywel? (WAQ5206)

**Edwina Hart:** Cyn comisiynu'r gwaith o osod system awyru newydd yng ngweddill adeilad y Cynulliad, cynhaliwyd astudiaeth dichonolrwydd ar oeri'r awyr. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad mai'r system fwyaf priodol i oeri'r awyr yn adeilad y Cynulliad fyddai system wedi'i seilio ar oerydd. Polisi gwyrdd Cynulliad Cenedlaethol yw cael gwared fesul cam â sylweddau sydd yn disbyddu osôn. Felly, datblygwyd y fanyleb ar gyfer y system oeri'r awyr yn unôl â deddfwriaeth a chyfarwyddebau

Ewropeaidd cyfredol er mwyn dethol oerydd cyfredol, derbyniol a saff o safbwynt yr amgylchedd. Yr oerydd a ddewiswyd, sydd wedi'i osod, yw R407C, hydroclorofflwrocarbon oerol nad yw'n aseotropig a'r mwyaf clên i'r amgylchedd o'r systemau addas sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae i hydroclorofflwrocarbonau ffactor gwyro osôn posibl o sero ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw gemegau sydd yn difrodi'r haen osôn.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol

**Peter Rogers:** Beth fydd yn cael ei wneud i unioni'r anghysondeb sydd rhwng yr arian sydd ar gael yng Nghymru ac yn Lloegr i gynnal y strategaeth gofal plant genedlaethol? (WAQ4169) ***Trosglwyddwyd oddi wrth yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai.***

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Bydd y Cynulliad yn darparu £2.3 miliwn i gyd i gefnogi'r strategaeth gofal plant genedlaethol yn 2000-01. Caiff cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod ei ystyried yng nghylch cynllunio'r gyllideb sydd ar ddod.

### Lefel AS

**Jonathan Morgan:** Pa mor hir fydd cyfnod monitro a gwerthuso'r lefel AS newydd? (WAQ4651) ***Trosglwyddwyd oddi wrth yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.***

**Rosemary Butler:** Yng nghyhoeddiad blynyddol Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), 'Examining Success in Wales', ceir gwybodaeth am y niferoedd sydd yn sefyll arholiadau a'r niferoedd sydd yn llwyddo. Bydd y data cyntaf am y niferoedd sydd wedi sefyll yr arholiadau Lefel AS ac wedi llwyddo ynddynt ar gael yn dilyn arholiadau haf 2001.

Er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal mewn arholiadau Lefel AS, cânt eu hymgorffori o fewn rhaglen barhaus ACCAC o fonitro ôl-achredu.

### Cronfa Cymorth Gweinyddol

**Jonathan Morgan:** A wnaiff Rosemary Butler wneud datganiad ynghylch y gronfa cymorth gweinyddol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru a faint o arian cyfatebol y bydd AALlau yn ei ddarparu? (WAQ4858)

**Rosemary Butler:** Mae'r gronfa cymorth gweinyddol mewn ysgolion bach yn rhan o'r gronfa safonau, a gynhelir yn Lloegr gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Nid oes unrhyw beth sydd yn cyfateb yn uniongyrchol i'r cynllun hwnnw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gronfa cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth o fewn grantiau'r rhaglen cefnogaeth a hyfforddiant addysg yn darparu £1.5 miliwn i helpu i gyflogi cynorthwywyr dosbarth a ffurfiau eraill o gymorth yn unol ag anghenion lleol.

### Cronfa Cymorth i Ysgolion Bach

**Jonathan Morgan:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ar y gronfa cymorth i ysgolion bach a faint o arian cyfatebol y bydd AALlau yng Nghymru yn ei ddarparu?

**Rosemary Butler:** Mae'r gronfa cefnogaeth i ysgolion bach yn gweithredu yn Lloegr o fewn cronfa safonau ysgolion yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Nid oes cronfa i ysgolion bach yng Nghymru.

### Addysg Cyfrwng Cymraeg (Abertawe)

**Alun Cairns:** A wnaiff Rosemary Butler ddweud wrth awdurdod addysg Abertawe i ddarparu

cyfleusterau digonol ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas? (WAQ5186)

**Rosemary Butler:** Na wnaf. Yr awdurdodau addysg lleol sydd yn gyfrifol am gynllunio a darparu lleoedd ysgol.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Sefydlu Fforwm Ieuenctid y Cynulliad Cenedlaethol

**Nick Bourne:** A fydd yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn ystyried sefydlu fforwm ieuenctid ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cynyddu cyfranogiad pobl ifanc Cymru yn y broses ddemocrataidd? (WAQ5218)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Yr wyf yn bwrw ymlaen ar fater cyfranogiad effeithiol gan bobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yng nghyd-destun dysgu gydol oes a dinasyddiaeth fyw. Mae hefyd yn elfen yn ein cynllun strategol Gwell Cymru.

Mae Young Voice-Llais Ifanc wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut y gall plant a phobl ifanc gyrchu at a chyfrannu at y prosesau democrataidd cenedlaethol a lleol. Mae pobl ifanc eu hunain yn ymwneud yn agos â hyn a byddant yn dod ynghyd yn adeilad y Cynulliad ar 7 Gorffennaf i drafod materion sydd o'r pwys pennaf iddynt ynghyd â chwestiwn ehangach y rhyngweithio rhyngddynt â'r strwythurau democrataidd, yn enwedig y Cynulliad. Caiff canlyniadau'r digwyddiad ar 7 Gorffennaf a'r gwaith sydd ar y gweill gan y tîm Young Voice-Llais Ifanc eu dwyn ynghyd yn yr hydref a'u cyflwyno i'r Cynulliad. Mae'n rhy gynnar felly i ddweud ai un ffordd ymlaen fyddai sefydlu Fforwm Ieuenctid o dan y Cynulliad Cenedlaethol.

### Canolfan Breswyl Ogwr

**Alun Cairns:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad am ddyfodol Canolfan Breswyl Ogwr ar gyfer cerddorion o bob rhan o'r wlad? (WAQ5366)

**Tom Middlehurst:** Yr wyf yn gwerthfawrogi gwerth y cyfleusterau a ddarperir gan Ganolfan Breswyl Ogwr. Mae'r ganolfan yn darparu cyrsiau i ddisgyblion ysgol mewn ystod o bynciau gan gynnwys addysg gorfforol, cerddoriaeth, drama, dawns a chelfyddyd.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Canolfan Breswyl Ogwr yn Ebrill 1997 i reoli'r ganolfan pan ganfu'r awdurdodau lleol na allent mwyach ddarparu cefnogaeth ariannol. Dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Cymru grant i'r ganolfan yn 1997 tuag at gyllido astudiaeth dichonolrwydd i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer datblygu'r safle. Cadarnhaodd yr astudiaeth mai dim ond gwariant cyfalaf sylweddol fyddai'n datrys cyflwr y safle cyfredol. Ers yr astudiaeth honno nid yw Cyngor y Celfyddydau wedi derbyn unrhyw geisiadau pellach am gyllid. Mater i'r Ymddiriedolaeth yw dyfodol y ganolfan. Efallai y bydd yr Ymddiriedolaeth am ystyried y posibiliadau o gael cyllid oddi wrth gyrff dosbarthu'r loteri, yn benodol, Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, y gronfa cyfleoedd newydd a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae cyrff dosbarthu'r loteri yn gwneud eu penderfyniadau yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad ac ni fyddai'n briodol i mi geisio dylanwadu ar unrhyw benderfyniad.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

### Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol (Hygyrchedd i'r Cyhoedd)

**Nick Bourne:** A yw Peter Law wedi cael unrhyw drafodaethau ag awdurdodau lleol mewn perthynas â sicrhau bod eu cyfarfodydd yn dal i fod yn hygyrch i'r cyhoedd? (WAQ5184)

**Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law):** Cyffyrddwyd â'r pwnc hwn yng ngweithgor moderneiddio y cyngor partneriaeth llywodraeth leol. Bydd y grŵp hwnnw yn ystyried mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd fel rhan o'r canllawiau cyffredinol ar strwythurau rheoli gwleidyddol newydd o dan y Mesur Llywodraeth Leol.

### Troseddau Hwliganiaid Pêl-droed

**Nick Bourne:** A yw'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai wedi cael unrhyw drafodaethau â'i gydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â datblygu polisi i ostwng nifer troseddau hwliganiaid pêl-droed ym Mhrydain? (WAQ5185)

**Peter Law:** Nid yw cyfraith a threfn yn fater sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae rheoli cefnogwyr pêl-droed yn fater o drefn gyhoeddus ac, fel y cyfryw, yr Ysgrifennydd Cartref sydd yn gyfrifol amdano. Er fy mod yn rhannu pryderon pawb call ynglŷn â lefel a natur hwliganiaeth pêl-droed, nid wyf wedi cael trafodaethau ar y mater gyda San Steffan.

Mae Deddf Pêl-droed (Troseddau ac Anhrefn) 1999, a ddaeth i rym ym Medi 1999, yn darparu ar gyfer ystod o fesurau i helpu i dynhau'r strategaeth gorchmynion gwahardd gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod y rheini sydd â'i bryd ar darfu ar gemau pêl-droed yn cael eu hatal rhag gwneud hynny. Cymerwyd camau sylweddol ymlaen o ran lleihau graddfa hwliganiaeth ers cyflwyno deddfwriaeth yn ymdrin â phêl-droed dros ddegawd yn ôl. Mae'r ddeddfwriaeth, a gwell plismona a gwybodaeth, technoleg, stiwardio a gwell cyfleusterau wedi cyfuno i gyflawni'r camau hynny ymlaen. Maent oll yn dibynnu ar gyfraniad a chydweithrediad clybiau, cefnogwyr, yr heddlu a'r gymuned ehangach a allant, drwy weithio gyda'i gilydd, ddileu hwliganiaeth a gwneud y gêm yn rhywbeth i'r mwyafrif llethol o gefnogwyr sydd yn heddychlon ac yn parchu'r gyfraith.

### Cynllun Cartrefi Diffygiol (Atgyweirwyr Cymwys)

**Alun Cairns:** A wnaiff Peter Law roi manylion atgyweirwyr cymwys ar gyfer y cynllun cartrefi diffygiol a sefydlwyd gan Ddeddf Tai 1985? (WAQ5219)

**Peter Law:** Nid yw Deddf Tai 1985 yn pennu bod yn rhaid defnyddio unrhyw gynlluniau atgyweirio nac atgyweirwyr penodol fel amod o gael grant. Fodd bynnag, i sicrhau bod gwaith atgyweirio yn mynd i barhau ac y gellir cael morgais arno, rhoddai PRC Homes Limited, is-gwmni i'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai, drwyddedau i gynlluniau ac atgyweirwyr ac yr oedd ganddynt gynllun archwilio a warantî.

Nid oes cymorth ar gael mwyach o dan Ddeddf 1985 er bod PRC Homes Limited yn cadw rhestr o'r rhai a ddyluniodd gynlluniau atgyweirio a drwyddedwyd yn flaenorol, y gallent efallai awgrymu atgyweirwyr a allai ymgymryd â gwaith o'r math hwn. Dylai perchenogion gadarnhau bod unrhyw atgyweirio o'r fath a wneir heb gynllun archwilio a warantî yn dderbyniol at ddibenion morgais.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd

### Banciau Nash a Helwick

**Alun Cairns:** Erbyn pryd, fan bellaf, y mae'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd yn disgwyl gallu gwneud cyhoeddiad ar ei phenderfyniad mewn perthynas â cheisiadau i wneud gwaith treillio oddi ar fanciau Nash a Helwick ym Môr Hafren? (WAQ5177)

**Alun Cairns:** Beth yw'r dyddiad cynharaf y mae Sue Essex yn disgwyl gallu gwneud cyhoeddiad ynglŷn â'i phenderfyniad mewn perthynas â'r cais i dreillio tywod oddi ar fanciau Nash a Helwick ym Môr Hafren? (WAQ5178)

**Alun Cairns:** Pa raddfa amser all Sue Essex ei chynnig mewn perthynas ag ystyried trwyddedau caniatâd i dreillio tywod oddi ar fanciau Nash a Helwick ym Môr Hafren? (WAQ5179)

**Yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd (Sue Essex):** Mae Llanelli Sand Dredging Limited yn ceisio amrywiad i amod ynghlwm wrth drwydded bresennol sydd yn cyfyngu ar faint o dywod y gellir ei gymryd o Fanc Helwick bob blwyddyn. Nid yw'n bosibl bod yn fanwl gywir ynglŷn â'r amseru am y rhesymau a roddwyd yn WAQ5187. Ar Fanc Nash, mae tri chwmni yn ceisio trwyddedau newydd i dreillio, i redeg o'r dyddiad y daw eu trwyddedau cyfredol i ben yn Chwefror 2001. I wneud hynny, rhaid iddynt gael barn gadarnhaol o du'r Llywodraeth, sef y Cynulliad, yn unol â'r trefniadau a gyflwynwyd ym Mehefin 1998 a elwir yn 'New Arrangements for the Licensing of Minerals Dredging'. Mae llyfryn sydd yn amlinellu'r drefn ar gael oddi wrth Is-adran Gynllunio'r Cynulliad. Mae'r ymgeiswyr wedi paratoi astudiaeth effaith arfordirol a datganiad amgylcheddol, ac wedi ymgynghori arnynt. Cafodd y rheini, ac ymatebion y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, eu pasio i'r Cynulliad yn ddiweddar. Yn awr rhaid i'r swyddogion ymgynghori eto â'r rhai sydd â buddiant, a manylu ar yr adroddiadau technegol a'u hasesu. Rhaid iddynt hefyd edrych ar y data a gasglwyd mewn perthynas â'r monitro arfordirol a morol a wnaethpwyd hyd yma. Mae gofyniad hefyd i ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a phenderfynu a fyddai'r materion o dan sylw yn elwa o wrandawiad neu ymchwiliad ai peidio. Nid materion ysgafn mo'r rhain; byddant yn cymryd misoedd lawer i ymdrin â hwy. Ar ddiwedd y broses gwneir penderfyniad, ond nid yw'n bosibl bod yn bendant ynglŷn â'r amseriad.

## Datblygiadau'r Fferm Wynt (Cefn Croes)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Sue Essex wedi'u derbyn ynglŷn â'r datblygiad fferm wynt arfaethedig yng Nghefn Croes ger Ponterwyd? (WAQ5182)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi derbyn sylwadau gan Elin Jones AC a thri pherson sydd yn byw yn lleol. Mynegwyd pryder ganddynt ynglŷn ag effaith debygol y fferm wynt arfaethedig ar y tirwedd, bywyd gwyllt, treftadaeth ac economi'r ardal, ac am y drefn sydd i'w defnyddio i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd.

## Gwasanaeth Bws Cefn Gwlad Cymru

**Nick Bourne:** A all Sue Essex roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'i chydweithwyr yn San Steffan neu unrhyw gyrff perthnasol eraill ar wella gwasanaethau bws yng nghefn gwlad Cymru? (WAQ5183)

**Sue Essex:** Byddaf yn cwrdd â Chyd-ffederasiwn Cludiant Teithwyr (Cymru), sydd yn cynrychioli'r diwydiant bysiau, yn fuan. Yr wyf wedi cwrdd â'r awdurdod rheilffyrdd strategol cysgodol a'r cwmnïau sydd yn rhedeg y trenau. Yr wyf hefyd wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r holl awdurdodau lleol i drafod rhoi trafnidiaeth integredig ar waith ledled Cymru yng nghyd-destun y cynlluniau trafnidiaeth lleol, y maent yn eu paratoi. Maes o law, bydd angen i'r cynlluniau hynny ymgorffori strategaethau bysiau llawn. Mae'r awdurdodau lleol eisoes yn gwario tua £10 miliwn y flwyddyn o'u hadnoddau eu hunain nad ydynt wedi'u pridiannu i gefnogi gwasanaethau bws anfasnachol y mae eu hangen yn gymdeithasol ac maent hefyd yn cefnogi trefniadau cludiant cymunedol amrywiol. Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn darparu cefnogaeth bellach i gynlluniau cludiant cyhoeddus a chymunedol ar draws Cymru. Gwna hynny drwy'r grant cymhorthdal bysiau o £5 miliwn, y targedir £3 miliwn ohono ar ardaloedd gwledig, a grant cludiant gwledig Cymru, sydd yn cefnogi prosiectau cludiant cymunedol a deilwriwyd yn lleol mewn ardaloedd lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael neu nad yw'n briodol. Yn ychwanegol, mae'r Cynulliad yn cyllido swydd swyddog cludiant gwledig y Gymdeithas Cludiant Gwledig yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at yr astudiaeth ar gludiant teithwyr yn gyffredinol y bydd pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ymgymryd â hi a byddaf yn ystyried barn y Pwyllgor wrth fwrw ymlaen â gwelliannau i'r gwasanaethau.

## Banc Helwick

**Alun Cairns:** Pryd fydd Sue Essex yn gwneud penderfyniad ar drwydded i dreillio tywod oddi ar fanc Helwick? (WAQ5187)

**Alun Cairns:** Â phwy fydd Sue Essex yn ymgynghori cyn gwneud penderfyniad ar drwydded i dreillio tywod oddi ar fanc Helwick? (WAQ5188)

**Alun Cairns:** Pa adroddiadau y mae Sue Essex yn disgwyl amdanynt cyn gwneud penderfyniad ar y drwydded i dreillio tywod oddi ar fanc Helwick? (WAQ5189)

**Sue Essex:** Mae gan Llanelli Sand Dredging Limited drwydded ar hyn o bryd o dreillio tywod oddi ar Fanc Helwick, ac mae'n ceisio amrywiad i amod sydd yn cyfyngu ar faint o dywod y gellir ei gymryd i 150,000 tunnell fetrig y flwyddyn. Mae'r Cynulliad wedi ymgynghori'n eang i ganfod barn y rhai sydd â buddiant, a disgwylir adroddiad technegol oddi wrth y cwmni o blaid yr amrywiad cyn diwedd Mai. Pan dderbynnir ef, caiff yr holl ddata a gwybodaeth eu cloriannu, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil annibynnol, i bwyso a mesur unrhyw ganlyniadau amgylcheddol posibl yn erbyn y galw am dywod gan ddiwydiant yn ne orllewin Cymru. Os bydd yn rhaid ceisio mwy o wybodaeth oddi wrth y cwmni neu unrhyw barti yr ymgynghorwyd ag ef, gwneir hynny. Nid yw'n bosibl bod yn bendant ynglŷn ag amseriad y penderfyniad.

## Cysylltiad Rheilffordd Aberhonddu i Gaerdydd

**Nick Bourne:** A wnaiff Sue Essex wneud datganiad ar ei phenderfyniad i beidio ag adfer cysylltiad rheilffordd Aberhonddu a Chaerdydd, ac effaith hynny ar dwristiaid yn yr ardal? (WAQ5192)

**Sue Essex:** Mater i Railtrack ccc yw hwn. Mae'r Cynulliad yn agored i gefnogi'r cais o blaid ailagor llinellau sydd yn bodoli'n barod at ddefnydd teithwyr, gan gynnwys twristiaeth, lle gallent ddod â budd economaidd. Fodd bynnag, rhaid i'r llinellau hynny hefyd greu enillion masnachol buan ar y buddsoddiad, os ydynt i ddenu'r ymrwymiad a'r cyllid angenrheidiol gan Railtrack.

Gyda'n cyllideb gyfyngedig ni allwn gyllido gweithiau isadeiledd mawr a rhaid felly inni roi blaenoriaeth i ddatblygu'r achos o blaid llinellau sydd yn debygol o ddenu cyllid preifat yn ddiweddarach.

Mae Railtrack wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i adfer cysylltiad rheilffordd ar hyd y llwybr hwn.

## Cludiant Lleol am Ddim i Bensiynwyr

**Janet Ryder:** O ran rhoi'r hawl i bensiynwyr deithio am ddim yn lleol, beth yw diffiniad 'pensiynwyr'? (WAQ5193)

**Sue Essex:** Mae Deddf Trafnidiaeth 1985 yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol i ddarparu consesiynau teithio i'w trigolion sydd o oed pensiwn, hynny yw, dynion 65 oed a throsodd a menywod 60 oed a throsodd. Mae'r cymhwyster hwnnw wedi ei gysylltu'n statudol â'r oedran pensiwn gwladol er 1955.

Caiff y gwahaniaeth oedran ei ddileu pan gysonir yr oed pensiwn i ddynion a menywod ar 65 oed a throsodd dros gyfnod trosiannol rhwng 2010 a 2020, yn unol â Deddf Pensiynau 1995.

## Cludiant Lleol am Ddim

**Janet Ryder:** A all Sue Essex ddarparu amcangyfrif o'r gost o ddarparu cludiant lleol am ddim i bensiynwyr a phobl anabl yng Nghymru? (WAQ5212)

**Sue Essex:** Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwario tua £10 miliwn y flwyddyn ar gynlluniau teithio mantais. Disgwylir i'r gost flynyddol ychwanegol o ddarparu consesiynau am ddim i bensiynwyr a phobl anabl fod rhwng £15 miliwn ac £20 miliwn.

### Gwella Cludiant Cyhoeddus yng Nghefn Gwlad Cymru

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Sue Essex i ddatblygu polisi i wella pob math o gludiant cyhoeddus ledled cefn gwlad Cymru? (WAQ5223)

**Sue Essex:** Byddaf yn cwrdd â'r Cyd-ffederasiwn Cludiant Teithwyr, sydd yn cynrychioli'r diwydiant bysiau, yn fuan, ac yr wyf wedi cwrdd â'r awdurdod rheilffyrdd strategol cysgodol a'r cwmnïau sydd yn rhedeg y trenau. Yr wyf hefyd wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r holl awdurdodau lleol i drafod rhoi trafnidiaeth integredig ar waith ledled Cymru yng nghyd-destun y cynlluniau trafnidiaeth lleol, y maent yn eu paratoi. Maes o law, bydd angen i'r cynlluniau hynny ymgorffori strategaethau bysiau llawn. Mae'r awdurdodau lleol eisoes yn gwario tua £10 miliwn y flwyddyn o'u hadnoddau eu hunain nad ydynt wedi'u pridiannu i gefnogi gwasanaethau bws anfasnachol y mae eu hangen yn gymdeithasol ac maent hefyd yn cefnogi trefniadau cludiant cymunedol amrywiol. Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn darparu cefnogaeth bellach i gynlluniau cludiant cyhoeddus a chymunedol ar draws Cymru drwy'r grant cymhorthdal bysiau o £5 miliwn, y targedir £3 miliwn ohono ar ardaloedd gwledig, a thrwy'r grant cludiant gwledig i Gymru, sydd yn cefnogi prosiectau cludiant cymunedol a deilwriwyd yn lleol mewn ardaloedd lle un ai nad oes cludiant cyhoeddus ar gael neu na fyddai'n briodol. Yn ychwanegol, mae'r Cynulliad yn cyllido swydd swyddog cludiant gwledig y Gymdeithas Cludiant Gwledig yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at yr astudiaeth ar gludiant teithwyr yn gyffredinol y bydd pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ymgymryd â hi a byddaf yn ystyried barn y Pwyllgor wrth fwrw ymlaen â gwelliannau i'r gwasanaethau.

### Ffatri Rockwool

**Alun Cairns:** Ar ba sail y mae'r datganiad amgylcheddol yn cael ei wneud mewn perthynas â ffatri Rockwool yn Heol-y-Cyw, Pencoed o ystyried y diffyg manylder yn y cais cynllunio? (WAQ5268)

**Alun Cairns:** Pa gynnydd sydd yn cael ei wneud ar y datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r cais cynllunio cyfagos i ffatri Rockwool yn Heol-y-Cyw, Pencoed a beth yw'r amserlen y gellir ei chynnig? (WAQ5271)

**Sue Essex:** Deallaf fod cais am ganiatâd cynllunio amlinellol am ddatblygiad diwydiannol ar 32.5 hectar o dir, yn ffinio â ffatri Rockwool, Pencoed, wedi'i wneud gan Taylor Woodrow Construction (Southern) Ltd ac i'r awdurdod cynllunio lleol—Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr—ei dderbyn ar 8 Gorffennaf 1999.

Cytunodd y cyngor a'r ymgeisydd wedi hynny fod angen asesiad effaith amgylcheddol mewn perthynas â'r cais, yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999.

Deallaf fod y cyngor yn dal i ddisgwyl i'r ymgeisydd gyflwyno ei ddatganiad amgylcheddol, sef y cam cyntaf ym mhroses yr asesiad effaith amgylcheddol. Tra bo atodlen 4 y Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol yn pennu math ac ystod yr wybodaeth fanwl y mae'n rhaid i ddatganiad amgylcheddol ei chynnwys, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo ei chynnwys, am brif effeithiau tebygol prosiect ar yr amgylchedd, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yn llwyr yw cynhyrchu datganiad amgylcheddol. Ar ôl cyflwyno datganiad amgylcheddol, cyfrifoldeb yr awdurdod penderfynu yw sicrhau bod yr wybodaeth ynddo yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol cyn y deuir i benderfyniad.

### Lleihau'r Nifer sydd yn cael eu Lladd a'u Hanafu ar y Ffordd (Sir Fynwy)

**David Davies:** Beth yw'r nod ar gyfer lleihau nifer y bobl sydd yn cael eu lladd a'u hanafu ar y ffordd yn

Sir Fynwy y flwyddyn nesaf? (WAQ5274)

**Sue Essex:** Mater i Gyngor Sir Fynwy yw hwn. Byddwn yn disgwyl i'r awdurdod lleol gynnwys targedau ar leihau'r nifer sydd yn cael eu hanafu ar y ffyrdd yn eu cynllun trafnidiaeth lleol, sydd i fod i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad erbyn diwedd Awst.